**Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg**

Mae'r ffurflen Asesu Effaith ar y Gymraeg yma'n galluogi Cyngor Rhondda Cynon Taf i drafod egwyddorion a gofynion Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 1) 2015 er mwyn cydymffurfio â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

| | |
|---|---|
| **Cam 1 - Casglu Gwybodaeth**<br><br>**NODER:** Wrth i chi gwblhau'r asesiad yma, bydd gofyn i chi gyflwyno **tystiolaeth i ategu'ch sylwadau**. Gweler Canllawiau Asesu Effaith ar y Gymraeg i gael rhagor o wybodaeth am ffynonellau data. | |
| **Enw'r Cynnig:** | Strategaeth Dreftadaeth |
| **Adran** | Gwasanaeth Treftadaeth |
| **Cyfarwyddwr Gwasanaeth** | Louise Davies |
| **Swyddog sy'n llenwi'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg** | Caroline O'Neill |
| **E-bost** | Caroline.a.oneill@rctcbc.gov.uk |
| **Ffôn** | 07786523614 |
| **Disgrifiad Cryno** | Datblygu a ffurfioli Strategaeth Dreftadaeth ar gyfer Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf. |
| **Dyddiad** | Mehefin 2024 |
| **Nodwch ar bwy mae'r cynnig yma'n effeithio: (defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr, y gymuned ehangach)** | (defnyddwyr gwasanaethau, gweithwyr, y gymuned ehangach) |

| | |
|---|---|
| **Beth yw nodau'r polisi, a sut mae'r rhain yn berthnasol i'r Gymraeg?** | Datblygu a ffurfioli Strategaeth Dreftadaeth a chreu cysylltiadau â'r sector i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o dreftadaeth Rhondda Cynon Taf a'r rheiny sy'n ymwneud â'i rheoli. Mae'r Gymraeg yn rhan o'n treftadaeth yn Rhondda Cynon Taf, a bydd yn cael ei hystyried yn y strategaeth. |
| **Pwy fydd yn elwa? / A oes modd i'r polisi effeithio ar grwpiau Cymraeg? Os felly, rhestrwch nhw yma.** | Unrhyw unigolyn sy'n byw, yn gweithio neu'n ymweld â'r Fwrdeistref. |

<table>
<tr>
<td>Proffil ieithyddol cyfredol yr ardal(oedd) ddaearyddol dan sylw</td>
<td>Bob deng mlynedd mae'r DU yn neilltuo un diwrnod ar gyfer y Cyfrifiad, sy'n cyfri'r holl bobl ac aelwydydd yma. Mae'r Cyfrifiad yn ffynhonnell allweddol o wybodaeth am nifer y bobl sy'n gallu siarad Cymraeg.<br><br>
<h2>Cyfrifiad 2021 – Sgiliau Iaith Gymraeg</h2>
Cyhoeddodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ganlyniadau cwestiynau Cyfrifiad 2021 a oedd yn gofyn i ymatebwyr nodi lefel eu sgiliau Cymraeg ar 6 Rhagfyr 2022. Mae'r ddogfen yma'n crynhoi'r ffigurau a ryddhawyd ar 6 Rhagfyr 2022 fel y maen nhw'n ymwneud â Rhondda Cynon Taf a gweddill Cymru.<br><br>
<h3>Cymru</h3>
<ul>
<li>Ledled Cymru gyfan, nododd 24.4% o ymatebwyr i Gyfrifiad 2021 fod gyda nhw rywfaint o sgiliau Cymraeg</li>
<li>Dywedodd 16.8% o ymatebwyr eu bod nhw'n gallu darllen Cymraeg, dywedodd 14.5% eu bod nhw'n gallu ysgrifennu Cymraeg, dywedodd 17.3% eu bod nhw'n gallu siarad Cymraeg a dywedodd 3.9% eu bod nhw'n gallu deall Cymraeg llafar yn unig.</li>
<li>Ledled Cymru bu gostyngiad yn y gyfran o’r boblogaeth sy’n datgan rhyw lefel o sgiliau Cymraeg ym mhob mesur ond un (mae’r boblogaeth sy’n dweud eu bod “yn gallu siarad a chyfuniadau eraill o sgiliau yn y Gymraeg” wedi cynyddu 23.3%, o 5369 i 6620) ers Cyfrifiad 2011.</li>
</ul>
<h3>Rhondda Cynon Taf</h3>
<ul>
<li>Mae gan Rondda Cynon Taf gyfanswm o 43,179 o bobl a nododd ryw lefel o sgiliau Cymraeg yng Nghyfrifiad 2021 (18.2% o gyfanswm poblogaeth yr ardal)</li>
<li>Mae hyn yn ostyngiad o 19.2% o ymatebwyr yng Nghyfrifiad 2011 a nododd fod gyda nhw rywfaint o sgiliau Cymraeg</li>
<li>Yn gymesur, ychydig iawn o newid a fu yn nosbarthiad sgiliau Cymraeg ledled yr ardal rhwng 2011 a 2021.</li>
</ul></td>
</tr>
<tr>
<td></td>
<td><ul><li>Mae cyfartaledd Rhondda Cynon Taf yn is na chyfartaledd Cymru mewn 6 o 8 mesur o sgiliau Cymraeg – yr eithriadau yw “gallu darllen ond methu siarad nac ysgrifennu Cymraeg” a “gallu ysgrifennu ond methu siarad na darllen Cymraeg”.</li></ul></td>
</tr>
<tr>
<td>Data neu ymchwil perthnasol arall</td>
<td></td>
</tr>
</table>

**Cam 2 – Asesu Effaith**

Yma mae angen i chi ystyried yr effaith, y dystiolaeth ac unrhyw gamau rydych chi'n eu cymryd i wella. Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw'r cyfleoedd i bobl sy'n dewis byw eu bywydau a manteisio ar wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg yn israddol i'r hyn sydd ar gael i'r rhai sy'n dewis gwneud hynny yn Saesneg, yn unol â gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011.

Sylwch fod asesiad effaith ar wahân ar gyfer cydraddoldeb sy'n cynnwys dyletswydd Cymdeithasol-Economaidd y mae'n rhaid ei gwblhau hefyd ar gyfer cynigion polisi.

Cofiwch y gallai effeithiau sy'n gadarnhaol i rai grwpiau fod yn niweidiol i eraill – hyd yn oed ymhlith grwpiau Cymraeg. Ystyriwch yr effeithiau ar wahanol grwpiau. Er enghraifft, mae'n bosibl bod cynnig o fudd i ddysgwyr Cymraeg, ond nid i siaradwyr Cymraeg.

**Mae Asesiadau blaenorol o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg i'w gweld ar Inform trwy glicio yma.**

**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?**

| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Cyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg**<br><br>e.e. staff, trigolion ac ymwelwyr<br><br>Hawliau siaradwyr Cymraeg a dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg wrth<br>ddelio â'r Cyngor ac i staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle | Cadarnhaol | Mae’r Strategaeth Dreftadaeth yn cydnabod y Gymraeg yn rhan o’n treftadaeth, gan sicrhau ei bod yn cael ei dathlu a’i hyrwyddo, gan gynnwys yn rhan o’r Eisteddfod a'i gwaddol. Bydd gwefan newydd Treftadaeth Rhondda Cynon Taf hefyd yn ddwyieithog ac yn annog defnyddwyr i rannu eu hanes trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys ar ffurf sain. | Camau gweithredu o fewn y Strategaeth Dreftadaeth. | Byddai penodi aelod o staff sy'n siarad Cymraeg o fewn y Gwasanaeth Treftadaeth yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithgarwch Cymraeg. |
| **Cam 2 – Asesu Effaith**<br><br>**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** | | | | |
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu’n well at effeithiau cadarnhaol?** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Niferoedd a / neu ganrannau'r siaradwyr Cymraeg**<br>e.e. addysg cyfrwng Cymraeg / Cyfleoedd astudio cyfrwng Cymraeg. Cysylltu â Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru/ Strategaeth y Gymraeg Pum Mlynedd Cyngor Rhondda Cynon Taf | Cadarnhaol | Mae'r Strategaeth Dreftadaeth yn cydnabod y Gymraeg yn rhan o'n treftadaeth, gan sicrhau ei bod yn cael ei dathlu a'i hyrwyddo, gan gynnwys yn rhan o'r Eisteddfod a'i gwaddol. Bydd gwefan newydd Treftadaeth Rhondda Cynon Taf hefyd yn ddwyieithog ac yn annog defnyddwyr i rannu eu hanes trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys ar ffurf sain. | Camau gweithredu o fewn y Strategaeth Dreftadaeth. | Byddai penodi aelod o staff sy'n siarad Cymraeg o fewn y Gwasanaeth Treftadaeth yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithgarwch Cymraeg. |
| **Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg**<br>e.e. statws, defnydd o'r Gymraeg gwasanaethau iaith, defnydd o'r Gymraeg mewn bywyd bob dydd yn y gwaith ac yn y gymuned<br><br>Mynd ati i annog a hyrwyddo'r defnydd o'n gwasanaethau yn y Gymraeg i weld cynnydd yn y galw dros amser | Cadarnhaol | Mae'r Strategaeth Dreftadaeth yn cydnabod y Gymraeg yn rhan o'n treftadaeth, gan sicrhau ei bod yn cael ei dathlu a'i hyrwyddo, gan gynnwys yn rhan o'r Eisteddfod a'i gwaddol. Bydd gwefan newydd Treftadaeth Rhondda Cynon Taf hefyd yn ddwyieithog ac yn annog defnyddwyr i rannu eu hanes trwy gyfrwng y Gymraeg, gan gynnwys ar ffurf sain. | Camau gweithredu o fewn y Strategaeth Dreftadaeth. | Byddai penodi aelod o staff sy'n siarad Cymraeg o fewn y Gwasanaeth Treftadaeth yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu gweithgarwch Cymraeg. |

| **Cam 2 – Asesu Effaith**<br><br>**A fydd y cynnig arfaethedig yn effeithio ar unrhyw un neu bob un o'r canlynol?** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | **A fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral?** | **Disgrifiwch pam y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol / negyddol neu niwtral ar y Gymraeg.** | **Pa dystiolaeth sydd gyda chi i ategu'r farn hon?** | **Pa gam(au) mae modd eu cymryd i liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol?** |
| **Cydymffurfio â [Safonau Statudol Cymraeg y Cyngor]()**<br>e.e.<br>cynyddu neu leihau gallu'r Cyngor i gyflawni gwasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>Ystyried hawliau siaradwyr Cymraeg i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ddelio â'r Cyngor ac i aelodau o staff ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle | Niwtral | Bydd y Strategaeth yn cydymffurfio â Safonau Statudol Cymraeg y Cyngor, sef Safonau'r Gymraeg a'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg, yn ei ddatblygiad a'i gyhoeddiad. | Mae'r ymgynghoriad a'r ymgysylltu ar y strategaeth wedi rhoi cyfle i dderbyn ymatebion drwy gyfrwng y Gymraeg; bydd y strategaeth yn cael ei llunio'n ddwyieithog. | Bydd staff presennol y Gwasanaeth Treftadaeth yn cael eu hannog i ddilyn hyfforddiant Cymraeg pellach a bydd unrhyw benodi i'r gwasanaeth yn y dyfodol yn ystyried yr angen am siaradwr Cymraeg yn y gwasanaeth. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.** | Niwtral | Mae'r Gwasanaeth Treftadaeth yn sicrhau ei fod yn cydymffurfio â Safonau Statudol Cymraeg y Cyngor, sef Safonau'r Gymraeg a'r Strategaeth Hybu'r Gymraeg, yn ei holl feysydd, gan gynnwys yn ystod y broses o | Mae pob cyfathrebiad cyhoeddus yn ddwyieithog boed hynny'n ateb y ffôn yn ddwyieithog, yn ateb e-byst Cymraeg yn y Gymraeg neu'n darparu deunyddiau cyhoeddusrwydd dwyieithog ar gyfer y gwasanaeth. | Byddai ychwanegu siaradwr Cymraeg at y strwythur staffio yn gwella ein gallu i ddarparu gwasanaeth Cymraeg |
| | | ddatblygu'r Strategaeth Dreftadaeth. | Bydd gwefan Treftadaeth Rhondda Cynon Taf ar gael yn y Gymraeg ac yn Saesneg. Er nad oes gan y Gwasanaeth Treftadaeth unrhyw aelodau o staff sy'n siarad Cymraeg ar hyn o bryd, mae mesurau a chynlluniau ar waith er mwyn delio ag unrhyw geisiadau iaith Gymraeg a ddaw i law. | |

**Cam 3 – Gwella'r cynnig**

Ar ôl rhestru camau gweithredu yn adran 2 a allai liniaru unrhyw effeithiau negyddol neu gyfrannu'n well at effeithiau cadarnhaol – nodwch isod pa rai y byddwch chi'n eu cynnwys yn y cynnig polisi a phwy fydd yn gyfrifol amdanyn nhw.

Ystyriwch hefyd a yw'r cynnig yn angenrheidiol? A fyddai modd bodloni'r galw heb unrhyw ddatblygiadau newydd? A fyddai modd defnyddio darpariaeth arall sy'n bodoli eisoes? Ble dylai'r datblygiad fod?

| Beth rydych chi'n mynd i'w wneud? | Pryd ydych chi'n mynd i'w wneud? | Pwy sy'n gyfrifol? |
|---|---|---|
| Hyrwyddo gwersi Cymraeg i staff ac adolygu swyddi gwag i benderfynu a yw cyflogaeth Cymraeg hanfodol yn briodol. | Parhaus | Chris Richards |

| Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl, esboniwch pam. Rhowch ddigon o fanylion am ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymu. | |
|---|---|
| **Beth gafodd ei nodi?** | **Pam nad yw'n bosibl?** |
| | |
| | |
| | |

**Cam 4 – Adolygu**

Ar gyfer pob cynnig polisi, p'un a yw'n Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol ai peidio, mae'n ofynnol ichi anfon yr asesiad yma ymlaen at yr Uned Gwasanaethau Cymraeg – Swyddoglaith@rctcbc.gov.uk a'r garfan Ymgynghori ac Ymgysylltu – ymgynghoriad@rctcbc.gov.uk yn y lle cyntaf i gael rhywfaint o arweiniad ac adborth cychwynnol.

Yn rhan o'r Broses Asesu Effaith ar y Gymraeg, Cydraddoldeb a Dyletswydd Economaidd Gymdeithasol, dylai pob cynnig sy'n diwallu'r diffiniad o Benderfyniad Allweddol Arwyddocaol gael eu cyflwyno gerbron y Panel Adolygu Swyddogion. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch adroddiad gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol Strategol, anfonwch eich asesiad effaith sydd wedi'i gwblhau (Camau 1>6), ynghyd â chynnig/adroddiad polisi a'r adroddiad ymgynghori i'r cyfeiriad e-bost BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Darllenwch ein dogfen ganllaw i gael rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol Sylweddol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses hon fel y gallwn ddangos sut rydyn ni wedi ystyried ac ymgorffori ystyriaethau cynaliadwy o ran y Gymraeg lle bynnag y bo modd. Sicrhewch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod ar y cyd â'r adrannau perthnasol.

| **Sylwadau'r Uned Gwasanaethau Cymraeg** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn adborth gan yr Uned Gwasanaethau Cymraeg** |
|---|---|---|
| | | |
| **Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau gan Swyddogion y Panel Adolygu** |
| | | |
| **Sylwadau'r Adran Ymgynghori** | **Dyddiad Ystyried y Cynnig** | **Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad** |

| | | |
|---|---|---|
| | | |

| **Cam 5 – Monitro, Gwerthuso ac Adolygu**<br><br>Sut byddwch chi'n monitro effaith ac effeithiolrwydd y cynnig, a gyda phwy? |
|---|
| Bydd y Pennaeth Hamdden, Parciau a Gwasanaethau Profedigaethau, ynghyd â Phennaeth y Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd yn goruchwylio'r gwaith o ddatblygu, cyhoeddi a chyflawni'r Strategaeth Dreftadaeth. |

| **Cam 6 – Crynodeb o'r Effeithiau ar gyfer y Cynnig**<br><br>Darparwch grynodeb o'r asesiad effaith isod. Yn y crynodeb, rhaid cynnwys rhai o'r prif effeithiau cadarnhaol a negyddol ynghyd â throsolwg o'r camau gweithredu ers yr asesiad effaith a gafodd eu cymryd i gyfrannu at effeithiau mwy cadarnhaol yn well. Rhaid cynnwys y crynodeb hwn yn yr adran Ystyriaethau Cymraeg<br>sy'n rhan o dempled adroddiad Uwch Reolwyr y Cyngor / Cabinet. Dydy hi ddim yn addas ysgrifennu 'gweler yr adroddiad llawn yn Atodiad x' yn unig yng nghorff yr adroddiad. Rhaid i'r asesiad effaith gael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adroddiad. |
|---|
| *Cwblhawyd Asesiad Effaith ar y Gymraeg ac mae'r prif ganfyddiadau fel a ganlyn -*<br><br>• Bydd rhoi'r cynnig yma ar waith yn bennaf yn cael effaith gadarnhaol ar y Gymraeg gyda chydnabyddiaeth i'r iaith yn rhan o'n treftadaeth, gwaddol yr Eisteddfod Genedlaethol, a gwefan newydd Treftadaeth Rhondda Cynon Taf. |

<table>
<tr><td colspan="4"><u>Cam 7 – Cymeradwyo</u></td></tr>
<tr><td>Enw'r Swyddog sy'n cwblhau'r Asesiad Effaith ar y Gymraeg</td><td>Caroline ONeill</td><td>Enw Cyfarwyddwr Gwasanaeth:</td><td>Louise Davies</td></tr>
<tr><td>Swydd</td><td>Pennaeth y Celfyddydau, Diwylliant a Llyfrgelloedd</td><td rowspan="3">Rwy'n argymell bod y cynnig: (Tynnwch sylw at y penderfyniad)</td><td>Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw newidiadau</td></tr>
<tr><td colspan="2" rowspan="2"></td><td>Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu</td></tr>
<tr><td>Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur ar y Gymraeg</td></tr>
<tr><td>Llofnod</td><td></td><td>Llofnod y Cyfarwyddwr Gwasanaeth</td><td></td></tr>
<tr><td>Dyddiad</td><td></td><td>Dyddiad</td><td></td></tr>
</table>

**FFURFLEN ASESU EFFAITH AR GYDRADDOLDEB SY'N CYNNWYS DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL**

(Wedi'i diweddaru: Mawrth 2021)

Cyfeiriwch at y canllawiau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb cyfredol wrth gwblhau'r ddogfen yma. Pe hoffech chi gael arweiniad pellach, ffoniwch y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant ar 01443 444529.

Rhaid cwblhau asesiad effaith ar gydraddoldeb ar ddechrau unrhyw gynnig i sicrhau bod tystiolaeth gadarn yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau. Bydd y ddogfen yma'n helpu'r Cyngor i wneud penderfyniadau gwybodus, effeithiol a theg wrth sicrhau cydymffurfiad ag ystod o ddeddfwriaeth berthnasol, gan gynnwys:

- Mae hyn yn cynnwys Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011 - a'r Ddyletswydd Economiadd-gymdeithasol - Adrannau 1 i 3 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Bydd y ddogfen yma hefyd yn cyfrannu at ein dyletswyddau i greu Cymru sy'n fwy cyfartal o

fewn - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae canllawiau 'Cymru sy'n Fwy Cyfartal - Mapio'r Dyletswyddau' yn tynnu sylw at aliniad ein dyletswyddau mewn perthynas â'r ddeddfwriaeth uchod.

**ADRAN 1 - MANYLION Y CYNNIG**

Swyddog Arweiniol: Caroline O'Neill

Cyfarwyddwr Gwasanaeth: Louise Davies

Gwasanaeth: Treftadaeth

Dyddiad: Mehefin 2024

1. a) Beth ydych chi'n ei asesu o ran effaith?

| Strategaeth/Cynllun | Ail-fodelu/<br>Cau Gwasanaeth | Polisi/Gweithdrefn | Arfer | Gwybodaeth/Datganiad Swydd |
|---|---|---|---|---|
| ■ | ☐ | ☐ | ☐ | ☐ |

1.b) Beth yw enw'r cynnig?

Strategaeth Dreftadaeth

1.c) Nodwch drosolwg o'r cynnig gan ddarparu unrhyw ddolenni ategol i adroddiadau neu ddogfennau.

A ninnau'n Ardal Flaenoriaeth Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, derbyniodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wahoddiad i wneud cais i Gronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol am arian grant tuag at brosiect o'n dewis ni a fyddai'n ceisio ailfeithrin gallu yn Rhondda Cynon Taf a'r gymuned mewn perthynas â threftadaeth. Cafodd y prosiect Diwygio Delweddau/Altered Images ei ddatblygu o ganlyniad i'r dull yma a chafodd grant gwerth £250,000 ei dyfarnu iddo gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol yn Awst 2021 ar gyfer prosiect tair blynedd.

Un o amcanion allweddol y prosiect yw datblygu a ffurfioli strategaeth dreftadaeth a chreu cysylltiadau â'r sector i feithrin dealltwriaeth ddyfnach o dreftadaeth RhCT a'r rheiny sy'n ymwneud â'i rheoli.

1.d) Amlinellwch ble mae deddfwriaeth neu sbardunau eraill fel cod ymarfer yn effeithio ar gyflawni'r cynnig yma.

Nid oes gofyniad statudol ar y Cyngor i ddarparu Strategaeth Dreftadaeth.

1.e) Amlinellwch pwy mae'r cynnig yma'n effeithio arno:

- Defnyddwyr gwasanaeth
- Gweithwyr
- Y gymuned ehangach

**ADRAN 2 - PRAWF SGRINIO - A OES ANGEN ASESIAD EFFAITH AR GYDRADDOLDEB LLAWN?**

Caiff sgrinio ei defnyddio i benderfynu a yw'r fenter yn cael effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral ar grwpiau gwarchodedig. Lle mae effeithiau negyddol yn cael eu nodi ar gyfer grwpiau gwarchodedig rhaid cynnal Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb llawn.

Rhowch gynifer o fanylion â phosibl ynglŷn â sut y bydd y cynnig yn effeithio ar y grwpiau canlynol. Efallai na fydd hyn yn negyddol o reidrwydd, ond gallai effeithio ar grŵp sydd â nodwedd unigol mewn ffordd benodol.

**Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011**

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn gorfodi'r Cyngor i roi "sylw dyledus" i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithlon; hybu cyfle cyfartal rhwng gwahanol grwpiau; a meithrin cysylltiadau da rhwng gwahanol grwpiau. Rhowch ddull croestoriadol ar waith wrth gydnabod bod modd i unigolyn feddu ar fwy nag un nodwedd warchodedig.

| **<u>Nodweddion Gwarchodedig</u>** | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Oedran** *(Grwpiau oedran penodol h.y. pobl ifainc neu bobl hŷn)* | Effaith gadarnhaol | Nod y Strategaeth Dreftadaeth yw darparu cyfleoedd i'r holl drigolion ac ymwelwyr; fodd bynnag, cydnabyddir bod ymgysylltu plant a phobl ifainc â'u treftadaeth yn allweddol i'w hamddiffyn a'i chadw. | Arolwg Ar-lein<br>Sesiynau Ymgysylltu<br>Data prosiect Diwygio<br>Delweddau/Altered Images |
| **Anabledd** *(pobl sydd ag anableddau gweladwy ac anweladwy neu gyflyrau iechyd tymor hir)* | Cadarnhaol | Nod y Strategaeth Dreftadaeth yw darparu cyfleoedd i'r holl drigolion ac ymwelwyr; fodd bynnag, cydnabyddir bod angen gwella hygyrchedd. | Arolwg Ar-lein<br>Sesiynau Ymgysylltu<br>Data prosiect Diwygio<br>Delweddau/Altered Images |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Ailbennu Rhywedd** *(unrhyw un sydd â hunaniaeth rhywedd neu fynegiant rhywedd yn wahanol i'r rhywedd a neilltuwyd iddo adeg ei enedigaeth gan gynnwys hunaniaethau anneuaidd).* | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Nod y Strategaeth Dreftadaeth yw darparu cyfleoedd i bob un o drigolion ac ymwelwyr fwynhau ein treftadaeth ni waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig. | Arolwg Ar-lein<br>Sesiynau Ymgysylltu<br>Data prosiect Diwygio Delweddau |

| <u>**Nodweddion Gwarchodedig**</u> | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Priodas neu Bartneriaeth Sifil**<br>**RhCT**<br>*(pobl sy'n briod neu mewn partneriaethau sifil)* | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Nod y Strategaeth Dreftadaeth yw darparu cyfleoedd i bob un o drigolion ac ymwelwyr fwynhau ein treftadaeth ni waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig. | Arolwg Ar-lein<br>Sesiynau Ymgysylltu<br>Data prosiect Diwygio Delweddau |
| **Beichiogrwydd a Mamolaeth** *(Menywod sy'n feichiog / ar gyfnod mamolaeth)* | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Nod y Strategaeth Dreftadaeth yw darparu cyfleoedd i bob un o drigolion ac ymwelwyr fwynhau ein treftadaeth ni waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig. | Arolwg Ar-lein<br>Sesiynau Ymgysylltu<br>Data prosiect Diwygio Delweddau |
| **Hil**<br>*(grwpiau ethnig neu o dras h.y. grwpiau'r lleiafrifoedd ethnig, Sipsiwn, Roma a Theithwyr)* | Cadarnhaol | Nod y Strategaeth Dreftadaeth yw darparu cyfleoedd i'r holl drigolion ac ymwelwyr; fodd bynnag, bydd y Cyngor yn cynyddu cyfleoedd i gydnabod hil a dathlu amrywiaeth ddiwylliannol o fewn ein treftadaeth. | Arolwg Ar-lein<br>Sesiynau Ymgysylltu<br>Data prosiect Diwygio Delweddau |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Crefydd neu Gred** *(pobl sydd â gwahanol grefyddau a chredoau athronyddol gan gynnwys pobl heb unrhyw gredoau)* | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Nod y Strategaeth Dreftadaeth yw darparu cyfleoedd i bob un o drigolion ac ymwelwyr fwynhau ein treftadaeth ni waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig. | Arolwg Ar-lein<br>Sesiynau Ymgysylltu<br>Data prosiect Diwygio Delweddau |
| **Rhyw** *(Menywod a dynion, merched a bechgyn)* | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Nod y Strategaeth Dreftadaeth yw darparu cyfleoedd i bob un o drigolion ac ymwelwyr fwynhau ein treftadaeth ni waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig. | Arolwg Ar-lein<br>Sesiynau Ymgysylltu<br>Data prosiect Diwygio Delweddau |
| **Cyfeiriadedd Rhywiol** *(deurywiol, hoyw, lesbiaidd, heterorywiol)* | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Nod y Strategaeth Dreftadaeth yw darparu cyfleoedd i bob un o drigolion ac ymwelwyr fwynhau ein treftadaeth ni waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig. | Arolwg Ar-lein<br>Sesiynau Ymgysylltu<br>Data prosiect Diwygio Delweddau |

**Oherwydd ymrwymiadau'r Cyngor i ddarparu cyfleoedd i'r grwpiau canlynol o bobl, hoffen ni i chi ystyried yr effaith arnyn nhw:**

| | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Cymuned y Lluoedd Arfog** *(unrhyw un sy'n gwasanaethu, wedi gwasanaethu, aelodau o'r teulu a'r rhai sydd mewn profedigaeth)* | Cadarnhaol | Nod y Strategaeth Dreftadaeth yw darparu cyfleoedd i'r holl drigolion ac ymwelwyr; fodd bynnag, mae diogelu, cadw a choffáu cymuned y lluoedd arfog yn cael ei gydnabod yn y strategaeth. | Arolwg Ar-lein<br>Sesiynau Ymgysylltu<br>Data prosiect Diwygio Delweddau |
| **Cynhalwyr** *(Unrhyw un o unrhyw oedran sy'n darparu gofal di-dâl)* | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Nod y Strategaeth Dreftadaeth yw darparu cyfleoedd i bob un o drigolion ac ymwelwyr fwynhau ein treftadaeth ni waeth beth fo'u nodweddion gwarchodedig. | Arolwg Ar-lein<br>Sesiynau Ymgysylltu<br>Data prosiect Diwygio Delweddau |

Os yw'r prawf sgrinio cychwynnol wedi nodi effeithiau negyddol yna **rhaid** cynnal asesiad effaith ar gydraddoldeb llawn (adran 4). Serch hynny, os ydych chi'n penderfynu ar ôl cynnal prawf sgrinio nad yw'n berthnasol i chi gynnal asesiad effaith ar gydraddoldeb llawn, nodwch esboniad digonol isod:

Gan y bydd y Strategaeth Dreftadaeth yn effeithio'n niwtral neu'n gadarnhaol ar bob grŵp o bobl sydd â nodweddion gwarchodedig, does dim rhaid cynnal asesiad effaith cydraddoldeb llawn. Mae'r strategaeth yn cydnabod yr angen i gynyddu ymgysylltiad â threftadaeth ymhlith plant a phobl ifainc; gwella hygyrchedd ein treftadaeth, a diogelu a chadw ein treftadaeth ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Ydych chi'n fodlon bod gyda chi ddigon o dystiolaeth i gyfiawnhau'ch penderfyniad? Ydw ■ Nac ydw ☐

Enw: Caroline O'Neill

Swydd: Pennaeth y Celfyddydau, Diwylliant a Gwasanaethau Llyfrgelloedd

Dyddiad: Mehefin 2024

Anfonwch gopi o'r ffurflen sgrinio gyflawn yma at y Garfan Amrywiaeth a Chynhwysiant.

NODWCH - mae asesiad effaith ar wahân ar gyfer y Gymraeg. Rhaid ei gwblhau hefyd yn unôl â'r cynigion.

Dim ond os yw cynigion o natur strategol neu wrth adolygu penderfyniadau strategol blaenorol y mae'n rhaid cwblhau Adran 3 o Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol. Mae diffiniad o 'natur strategol' ar gael ar dudalen 6 o Ganllawiau Paratoi ar gyfer Cychwyn y Ddyletswydd Economaidd-Gymdeithasol Llywodraeth Cymru.

**ADRAN 3 – DYLETSWYDD ECONOMAIDD-GYMDEITHASOL (PENDERFYNIADAU STRATEGOL YN UNIG)**

Mae'r Ddyletswydd Economaidd-gymdeithasol yn rhoi cyfle i ni wneud pethau'n wahanol a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb sydd wirioneddol wrth wraidd gwneud penderfyniadau allweddol. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn golygu byw ar incwm isel o gymharu ag eraill yng Nghymru, heb fawr o gyfoeth cronedig, os o gwbl, gan arwain at ragor o amddifadedd materol. Mae hyn yn y pen draw yn cyfyngu ar y gallu i unigolion gael gafael ar nwyddau a gwasanaethau sylfaenol. Ystyriwch y grwpiau agored i niwed ychwanegol yma a'r effaith y mae modd i'ch cynnig ei chael arnyn nhw:

| | |
|---|---|
| • Rhieni sengl a theuluoedd sy'n agored i niwed<br>• Pensiynwyr<br>• Plant sy'n derbyn gofal<br>• Pobl ddigartref<br>• Myfyrwyr<br>• Cartrefi oedolion sengl | • Pobl sy'n byw mewn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Cymru<br>• Pobl â sgiliau isel o ran llythrennedd a rhifedd<br>• Pobl sydd wedi ymwneud â'r system loches<br>• Pobl sy'n camddefnyddio sylweddau<br>• Pobl o bob oed sy'n gadael lleoliad gofal<br>• Pobl sy'n ymwneud â'r system cyfiawnder troseddol |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Incwm isel/Tlodi o ran Incwm** *(does dim modd i'r unigolyn fforddio gwneud taliadau rheolaidd fel talu biliau, prynu bwyd a dillad, talu am gludiant ac ati.)* | Dewiswch un o'r opsiynau: | | |
| **Cyfoeth Isel a / neu Dim Cynilion** *(digon o arian i gwrdd â chostau byw sylfaenol a thalu biliau ond heb unrhyw gynilion i ddelio ag unrhyw wariant annisgwyl a dim darpariaethau ar gyfer y dyfodol).* | Dewiswch un o'r opsiynau: | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Amddifadedd Materol**<br>*(methu â chael mynediad at wasanaethau na chynnyrch sylfaenol h.y. cynhyrchion ariannol fel yswiriant bywyd, atgyweirio / amnewid nwyddau trydanol sydd wedi torri, cadw'r cartref yn gynnes, hobïau ac ati.)* | Dewiswch un o'r opsiynau: | | |

| **Anfantais economaidd-gymdeithasol** | **Oes unrhyw effeithiau cadarnhaol, negyddol neu niwtral gan y cynnig?** | **Nodwch fanylion yr effaith** | **Pa dystiolaeth sydd wedi'i defnyddio i ategu'r safbwynt yma?** |
|---|---|---|---|
| **Amddifadedd o ran Ardal**<br>*(Lle rydych chi'n byw (ardaloedd gwledig), lle rydych chi'n gweithio (mynediad at drafnidiaeth gyhoeddus)* | Dewiswch un o'r opsiynau: | | |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol**<br>*(dosbarth cymdeithasol h.y. addysg, cyflogaeth ac incwm rhieni)* | Dewiswch un o'r opsiynau: | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Anfantais economaidd-gymdeithasol**<br>*(Yr effaith gronnus y bydd y cynnig yn ei chael ar bobl neu grwpiau oherwydd eu nodwedd(ion) gwarchodedig neu eu bregusrwydd, neu oherwydd eu bod nhw eisoes dan anfantais)* | Dewiswch un o'r opsiynau: | | |

**IS-ADRAN 4 –**
## ASESIAD LLAWN O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

Dylech ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y cam sgrinio i'ch cynorthwyo i nodi effeithiau negyddol / andwyol posibl a nodi'n glir pa grwpiau sy'n cael eu heffeithio.

4.a) O ran unrhyw effaith anghymesur / negyddol / andwyol y byddai'n bosibl i'r cynnig ei gael ar grŵp gwarchodedig, nodwch y camau y byddai modd eu cymryd i leihau'r effaith yna ar gyfer pob grŵp sydd wedi'i nodi? **Atodwch gynllun gweithredu ar wahân os yw'r effeithiau'n rhai sylweddol.**

4.b) Os yw ffyrdd o leihau'r effaith wedi cael eu nodi ond dydyn nhw ddim yn bosibl, esboniwch pam dydyn nhw ddim yn bosibl.

4.c) Rhowch fanylion unrhyw ddata neu ymchwil sydd wedi arwain at eich rhesymeg uchod, yn enwedig y ffynonellau wedi'u defnyddio i sefydlu demograffeg defnyddwyr gwasanaethau/aelodau o staff.

4.d) Rhowch fanylion am sut gwnaethoch chi ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaethau / aelodau o staff ar y cynigion a'r camau a gymerwyd i osgoi unrhyw effaith anghymesur ar grŵp gwarchodedig. Esboniwch sut rydych chi wedi defnyddio adborth i ddylanwadu ar eich penderfyniad.

**IS-ADRAN 5 –**

4.e) Ydych chi'n fodlon bod y broses ymgysylltu yn cydymffurfio â gofynion y Dyletswyddau Statudol Cydraddoldeb a Dyletswyddau Statudol Economaidd-Gymdeithasol?

Ydw ☐ Nac ydw ☐

**MONITRO AC ADOLYGU**

5a) Amlinellwch isod sut y bydd y cynnig yn cael ei fonitro unwaith y bydd yn cael ei weithredu:

5b) Erbyn pryd rhaid i chi adolygu gwerthusiad y cynnig?

5c) Pwy sy'n gyfrifol am fonitro ac adolygu'r cynnig?

5d) Sut bydd y canlyniadau o'r broses fonitro'n cael eu defnyddio i ddatblygu cynigion yn y dyfodol?

**IS-ADRAN 6 –**
**ADOLYGU**

Yn rhan o'r broses Asesu Effaith rhaid cyflwyno pob cynnig sy'n dod o fewn y diffiniad o 'Benderfyniadau Allweddol' i'r Panel Adolygu. Mae swyddogion o bob rhan o Wasanaethau'r Cyngor yn rhan o'r panel yma ac mae'n gweithredu fel ffrind beirniadol cyn i'ch cynnig gael ei gwblhau a'i gyhoeddi ar gyfer cymeradwyaeth gan y Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.

Os yw'r cynnig yma'n cael ei ystyried yn Benderfyniad Allweddol anfonwch eich asesiad effaith at BusnesyCyngor@rctcbc.gov.uk fel bod modd trefnu Panel Adolygu i drafod eich cynnig. Mae dogfen ganllawiau Asesu Effaith ar Gydraddoldeb yn darparu rhagor o wybodaeth am beth yw Penderfyniad Allweddol.

Mae'n bwysig cadw cofnod o'r broses yma fel bod modd i chi ddangos sut rydych chi wedi ystyried cydraddoldeb a deilliannau economaidd-gymdeithasol. Gofalwch eich bod chi'n diweddaru'r adrannau perthnasol isod:

| Sylwadau Swyddogion y Panel Adolygu | Dyddiad Ystyriwyd | Disgrifiad byr o unrhyw newidiadau a wnaed yn dilyn ystyriaethau gan Swyddogion y Panel Adolygu |
|---|---|---|
| | | |

**IS-ADRAN 7 –**

| Sylwadau'r Adran Ymgynghori | Dyddiad Ystyriwyd | Disgrifiad byr o unrhyw welliannau a wnaed yn dilyn yr ymgynghoriad |
|---|---|---|
| | | |

**IS-ADRAN 8 –**

**6 CRYNODEB O'R EFFEITHIAU AR GYFER Y CYNNIG**

Nodwch grynodeb o'r asesiad effaith isod. Dylai'r crynodeb yma gael ei gynnwys yn adran cydraddoldeb ac effaith economaidd-gymdeithasol templed adroddiad y Cabinet. Dylid cyhoeddi'r asesiad effaith ochr yn ochr â'r adroddiad.

**ADRAN 7 - AWDURDODI**

Swyddog Arweiniol:

Enw:

Swydd:

Dyddiad:

Rydw i'n argymell bod y cynnig:

- Yn cael ei roi ar waith heb unrhyw newidiadau ☐
- Yn cael ei roi ar waith gan ystyried y camau lliniaru sydd wedi'u hamlinellu ☐
- Yn cael ei wrthod oherwydd effeithiau negyddol anghymesur y bydd y cynnig yn eu cael ar grwpiau gwarchodedig neu oherwydd anfantais economaidd-gymdeithasol ☐

Cymeradwyaeth y Pennaeth Gwasanaeth/Cyfarwyddwr:

Enw:

**IS-ADRAN 9 –**

Swydd:

Dyddiad:

Cyflwynwch yr asesiad effaith yma gydag unrhyw Adroddiadau i'r Cabinet / Uwch Reolwyr y Cyngor.

RHONDDA CYNON TAF